Hanes Bywyd Dewi Sant

Tywysog oedd Dewi oedd wedi ei eni i deulu brenhinol. Roedd ei dad, Sanctus, yn fab i Ceredig, tywysog Ceredigion yn ne-orllewin Cymru, a'i fam, Non, yn ferch i bennaeth lleol. Dywedid fod ei deulu o linach bonheddig a bod Dewi yn perthyn i'r Brenin Arthur enwog.

Pan oedd yn ŵr ifanc, gadawodd Dewi ei gartref i fynd i astudio wrth draed athro uchel ei barch o'r enw Paulinus. Roedd yr athro'n heneiddio ac, yn drist iawn, roedd yn colli ei olwg. Gofynnodd i'w ddisgyblion i gyd geisio ei wella, ond ni lwyddodd yr un ohonynt i wneud hynny. Yna cyffyrddodd Dewi lygaid yr hen ŵr a, thrwy wyrth, gallai weld yn glir unwaith eto.

Sylweddolodd Paulinus fod ei ddisgybl caredig a brwdfrydig hefyd yn Gristion diffuant a bu'n ei helpu i ddysgu llawer am y ffydd Gristnogol. Yn raddol penderfynodd Dewi gysegru ei fywyd i Dduw. Daeth yn genhadwr, a theithiai'r bryniau a'r dyffrynnoedd lle mae Cymru a Lloegr yn cyfarfod gyda'i gymdeithion ffyddlon. Roedd yn helpu pobl i ddeall mwy am y ffydd Gristnogol a sut i fyw fel dilynwyr Iesu.

Lle bynnag yr âi Dewi roedd yn awyddus i sefydlu mynachlogydd. Ynddynt roedd dynion yn byw mewn cymunedau ac yn cysegru eu hunain i addoli Duw a ffermio'r tir er mwyn cynnal bywoliaeth a helpu'r rhai oedd mewn angen.

Un tro, gadawodd Dewi ei wlad ei hun er mwyn teithio i Jerwsalem gyda dau gydymaith – i'r union ddinas lle digwyddodd yr hanesion am Iesu yn marw ac atgyfodi. Cawsant eu croesawu yno yn gynnes gan arweinydd yr eglwys. Roedd ef yn gweld bod Dewi yn wir ddilynwr i Dduw a bu'n ei annog i weithio'n galed i amddiffyn y ffydd Gristnogol. Anfonodd anrhegion i Dewi i'w helpu yn ei waith: allor, cloch, ffon a gwisg wedi ei gwehyddu ag aur. Dywedid fod yr anrhegion hyn wedi eu bendithio gan Dduw ac y gallent greu gwyrthiau ym mywydau unrhyw un fyddai yn eu cyffwrdd.

Ymhen amser, roedd Dewi eisiau cael hyd i rywle a allai fod yn gartref iddo. Un diwrnod, roedd Dewi a'i ffrindiau yng nghornel dde-orllewinol Cymru. Roedd y gwynt oer yn chwythu glaw i mewn o'r môr. Blagurai chwyn a gweiriau ymhlith y creigiau niferus. 'Gadewch i ni adeiladu ein cymuned yma, ymhell o brysurdeb y byd,' meddai Dewi.

Nid oedd ei ffrindiau wedi synnu. Roedd Dewi wedi mynnu ers blynyddoedd bod y mynaich yn ei fynachlogydd yn byw bywydau syml a darbodus. Fe'u dysgodd y byddai hunanddisgyblaeth yn eu bywydau bob dydd yn eu helpu i fyw yn gyfiawn.

Yma, yn y lle anghysbell hwn, byddent yn trin y pridd tenau gan dynnu'r aradr eu hunain er mwyn paratoi'r tir ar gyfer tyfu cnydau. 'Gallwn dyfu grawn i wneud bara,' meddai Dewi, 'ac ychydig o lysiau a all oroesi awelon oer y môr – cennin a wynwyn, er enghraifft. Dim ond dŵr fyddwn ni yn ei yfed.' Roedd Dewi eisoes wedi cael y llysenw 'Dewi Ddyfrwr'.

‘Ond nid yw’r ffrwd yma’n un dda,’ rhybuddiodd y mynaich ef. ‘Mae pobl yn dweud mai dim ond ychydig iawn o ddŵr sydd yn llifo ynddi yn yr haf.’ Aeth Dewi i darddle’r ffrwd a gweddïo ar Dduw. Trwy wyrth, daeth yn ffynnon o ddŵr pur, clir. Felly, dechreuodd y gwaith adeiladu yno, ym Mynyw.

Gweithiai’r mynaich mewn distawrwydd, oherwydd roedd Dewi am iddynt ddysgu meddwl am eu ffydd a gweddïo ar Dduw trwy’r amser. Teimlai’r mynaich newydd fod yr hyfforddiant yn anodd. ‘Pam dy fod yn dylyfu gên?’ gofynnodd Dewi yn flin i un mynach ifanc. ‘Dydw i ddim wedi arfer efo nosweithiau mor fyr,’ oedd ei ateb. ‘Ac er fy mod yn gwybod bod Ein Harglwydd Iesu wedi bod yn y bedd o nos Wener hyd fore Sul, oes raid i ni aros yn effro yr holl amser yna bob wythnos?’ ‘Paid â cholli hyder ynot ti dy hun,’ anogodd Dewi ef. ‘Rydw i wedi disgyblu fy hun i gadw’n effro er mwyn gweddïo trwy’r nos lawer gwaith.’ Nodiodd y mynach ei ben yn wylaidd. Roedd yn wir fod Dewi’n medru gorfodi ei hun i wneud unrhyw beth. Yn wir, gallai hyd yn oed dreulio oriau maith yn sefyll mewn dŵr rhewllyd yn adrodd rhannau o’r Beibl yn uchel heb gwyno unwaith!

Nid oedd Dewi mor llym gyda phobl y tu allan i’r gymuned. Roedd y gwaith a gyflawnai’r mynaich yn eu galluogi i fod yn hael tuag at y bobl dlawd oedd yn byw gerllaw ac i roi prydau bwyd a llety i bererinion a theithwyr.

Un diwrnod, roedd cyfarfod mawr ar gyfer pobl yr eglwys mewn lle o’r enw Llanddewi Brefi. Roeddent eisiau dewis arweinydd newydd ar gyfer yr eglwys trwy Gymru – rhywun yr oedd eu ffydd yn gryf a gwir ddealltwriaeth ganddynt o’r ffydd honno. Roedd y lle yn orlawn. Roedd pawb yn awyddus i siarad ond ni ellid eu clywed. Hyd yn oed wedi iddynt ddewis bryncyn bychan a rhoi pentwr o ddillad arno er mwyn i’r siaradwyr sefyll arno, nid oedd llais neb i’w glywed yn ddigon uchel.

Roedd yr hen Paulinus yn y dyrfa. ‘Anfonwch am Dewi,’ awgrymodd. ‘Rydw i’n gwybod ei fod yn ddoeth.’ Nid oedd Dewi’n awyddus i’w gynnig ei hun fel arweinydd newydd. O’r diwedd fodd bynnag, fe’i darbwyllwyd i ddod ymlaen. Aeth i sefyll ar y twmpath o ddillad a gweddïodd ar Dduw. Daeth colomen wen, arwydd o Ysbryd Sanctaidd Duw, ac eistedd ar ei ysgwydd. Yna, pan siaradodd Dewi, gwrandawodd pawb a chael eu hargyhoeddi ei fod yn ddoeth iawn.

Cytunwyd yn fuan mai Dewi fyddai arweinydd newydd yr eglwys. Roedd Dewi yn arwain y bobl yn ddoeth, ond gwrthododd arglwyddiaethu drostynt. Dewisodd yn hytrach barhau i fyw fel mynach ym Mynyw.

Un dydd Sul, cododd ar ei draed i bregethu. ‘Byddwch yn llawen. Cadwch y ffydd. Dilynwch fy esiampl, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i.’ Ymhen ychydig ddyddiau, ar 1 Mawrth, bu Dewi farw.